

Crynodeb Interniaeth Blog a Chymorth Dylunio INSPIRE

Cefndir y rôl

Rôl yr interniaeth yw creu deunydd ar gyfer ffrydiau cyfryngau cymdeithasol INSPIRE, gan gynnwys y [blog](#), Twitter a grwpiau Facebook. Bydd gofyn i chi weithio gyda'r Swyddog Materion Gwyrdd i gasglu gwybodaeth oddi wrth interniaid eraill INSPIRE a llunio datganiadau i'r wasg am Fasnach Deg, arbedion ynni, a'r ffyrdd mae'r Drindod Dewi Sant yn hyrwyddo cynaliadwyedd. Bydd yr intern yn gweithio gyda'r interniaid INSPIRE eraill i ddatblygu'r blog a ffrydiau'r cyfryngau cymdeithasol yn gyson drwy'r flwyddyn, a hefyd gyda'r Swyddog Materion Green a fydd yn cyflenwi gwybodaeth berthnasol. Yn ogystal, bydd yr intern hwn yn gyfrifol am greu deunyddiau hyrwyddo, megis posteri, ar gyfer digwyddiadau cynaliadwyedd drwy'r flwyddyn i'w defnyddio gan yr interniaid eraill.

Beth fydd yr interniaeth yn ei olygu?

Bydd interniaid yn cwrdd â'u rheolwr llinell unwaith y mis i gynllunio a thrafod cynnydd. Bydd yr interniaid yn cael y cyfle i gydweithio ar brosiectau gwahanol ac i gymryd rolau blaenllaw mewn digwyddiadau cysylltiedig sy'n digwydd drwy'r flwyddyn. Bydd yr interniaid yn gweithio'n annibynnol a chydag interniaid eraill neu gynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr / staff/myfyrwyr i gwblhau prosiectau. Bydd llawer o'r gwaith yn cael ei arwain gan yr interniaid o ran amser a bydd yn gofyn am ymrwymiad o 10-15 awr y mis.

Bydd angen i chi gwblhau adroddiadau misol am y gweithgareddau a gyflawnoch ac am eich gweithgareddau arfaethedig. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu hanfon at eich rheolwr llinell ar ddiwedd pob mis.

Manteision

- Taliad misol rheolaidd ar hyd cyfnod yr interniaeth yn seiliedig ar berfformiad
- Profiad o weithio gyda thîm ar brosiect mewn amgylchedd proffesiynol
- Gwybodaeth am dechnegau rheoli amgylcheddol mewn swyddfeydd a sefydliadau academiaidd
- Cipolwg ar ddulliau newid ymddygiad effeithiol
- Profiad cyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau
- Sgiliau cyfathrebu rhyngpersonol
- Gallu i gynllunio gweithgareddau a'u cyflawni'n effeithiol hyd at eu gweithredu
- Sgiliau arwain
- Rheoli amser
- Rheoli prosiectau
- Sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn helpu i'ch CV sefyll allan mewn marchnad swyddi gystadleuol.